Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008

## Crynodeb Gweithredol

D1560809_summary covers_w.indd 1 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 7/11/08 12:23:29

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 4923 6
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008
CMK-22-04-045(137)
D1560809

D1560809_summary covers_w.indd 2
CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001
7/11/08 12:23:30

# Crynodeb Gweithredol

## Rhagymadrodd

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn argymell y dylai gwladwriaethau sy'n gyfranogion yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gasglu data "ar bawb sydd dan 18 mlwydd oed ar gyfer yr holl feysydd y mae'r Confensiwn yn ymdrin â hwy, gan gynnwys y grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed". Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i asesu cynnydd ac i ddylunio polisïau i roi'r confensiwn ar waith.[1] Mae Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008, sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn cyflawni'r ymrwymiad hwn ac ef yw'r cyntaf o'i fath ar gyfer Cymru.

Mae'r Monitor yn rhoi dadansoddiad o les plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r rhain wedi'u seilio ar CCUHP - gweler Blwch 1. Mae hefyd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau tlodi plant Llywodraeth y Cynulliad, gan eu rhoi yng nghyd-destun yr hyn yr ydym yn ei wybod fel arall am amgylchiadau a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

### Blwch 1: Saith Nod Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

- *Nod Craidd 1:* Dylai pob plentyn gael dechrau teg mewn bywyd a'r sail orau posibl ar gyfer ei dwf a'i ddatblygiad yn y dyfodol (CCUHP, Erthyglau 3, 6, 29, 36).
- *Nod Craidd 2:* Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys dysgu sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol (CCUHP, Erthyglau 3, 13, 22, 28, 29, 30 ac wedi'i ategu gan hawliau 1, 2 a 5).
- *Nod Craidd 3:* Dylai pob plentyn a pherson ifanc fwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, erledigaeth a chamfanteisio (CCUHP, Erthyglau 3, 6, 9, 11, 13, 19-25, 32-40 ac wedi'i ategu gan hawliau 6 a 7).

[1] Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. Unfed sesiwn ar ddeg ar hugain. Ystyriaeth i Adroddiadau a Gyflwynwyd gan Wladwriaethau Cyfrannog dan Erthygl 44 o'r Confensiwn. Sylwadau Terfynol y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.



Executive Summary welsh.indd 1
CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001
6/11/08 14:31:01

- *Nod Craidd 4:* Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol (CCUHP, Erthyglau 15 ac 31 ac wedi'i ategu gan hawliau 8 a 9).
- *Nod Craidd 5:* Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael gwrandawiad, cael ei drin â pharch a chael cydnabyddiaeth i'w hil a'i hunaniaeth ddiwylliannol (CCUHP, Erthyglau 12-15, 21, 22, 30 ac wedi'i ategu gan hawliau 3 a 10).
- *Nod Craidd 6:* Dylai pob plentyn a pherson ifanc fod â chartref diogel a chymuned ddiogel sy'n hybu lles corfforol ac emosiynol (CCUHP, Erthyglau 9, 11, 16, 23 a 33).
- *Nod Craidd 7:* Ni ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fod dan anfantais oherwydd tlodi (CCUHP, Erthyglau 26 a 27).

*Ffynhonnell: Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004)*
*Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Mae'r Monitor yn ceisio cynnig darlun amlweddog o les plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n bwysig cael y darlun hwn am nifer o resymau:

- Mae'n rhoi gwybodaeth ddibynadwy a chyfoes am les plant yng Nghymru, fel y gall Llywodraeth y Cynulliad fonitro tueddiadau allweddol ac ymateb iddynt.
- Bydd adroddiadau rheolaidd o gymorth i hybu ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen delio â hwy.
- Mae CCUHP yn galw ar aelod-wledydd i gyhoeddi data am les plant yn rheolaidd.

Mae'r monitor wedi'i ddatblygu gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gydweithio'n agos â swyddogion ym maes polisi a rhanddeiliaid allanol. Defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau i greu darlun mor gynhwysfawr a dibynadwy ag sy'n bosibl o les plant a phobl ifanc. Drwy dynnu gwahanol ffynonellau at ei gilydd cafwyd dealltwriaeth werthfawr o rai materion, ond nid oedd rhai o'r data a ddefnyddiwyd gennym yn hollol foddhaol. Er enghraifft, mewn mannau rydym wedi defnyddio data dirprwyol i gynrychioli'r hyn yr ydym yn ymddiddori ynddo mewn gwirionedd, ac mae rhai bylchau sylweddol mewn gwybodaeth.




Executive Summary welsh.indd 2 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:01

# Canfyddiadau Allweddol

## Y blynyddoedd cynnar

- Cododd cyfran y babanod a anwyd â phwysau geni isel yng Nghymru yn ystod y 1990au, ond mae wedi bod yn gostwng ers 2001 (er bod cynnydd yn 2006).
- Bu gostyngiad cyffredinol yn y gyfradd marwolaethau babanod yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf (er bod cynnydd yn 2007).
- Mae iechyd deintyddol rhai pum mlwydd oed yng Nghymru wedi aros yn gyson am fwy nag 20 mlynedd, ond yn 2005/06 roedd y sgôr gyfartalog ar gyfer dannedd a oedd wedi pydru, wedi'u colli neu eu llenwi (dmft) ar gyfer plant yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr ac yn yr Alban (gweler Ffigur 1).
- Mae lefel yr ysmygu ymysg mamau sydd wedi'i chofnodi'n uwch yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU. Roedd ychydig mwy nag un rhan o bump (22%) o famau'n ysmygu drwy gydol eu beichiogrwydd o'i gymharu â chyfartaledd o 17% ar gyfer y DU.
- Yn 2005-06, y salwch mwyaf cyffredin y cafodd plant dan saith oed driniaeth ar ei gyfer oedd afiechydon y croen.
- Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yng Nghyfnod Allweddol 1.

**Ffigur 1: Y sgôr gyfartalog ar gyfer dannedd sydd wedi pydru, eu colli neu eu llenwi (dmft) ymysg plant 5 mlwydd oed yn Lloegr, Cymru a'r Alban (1997/98-2005/06)**




*Ffynhonnell: Arolygon y Gymdeithas Brydeinig er Astudio Deintyddiaeth Gymunedol (BASCD) 1997-2006*




Executive Summary welsh.indd 3
CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001
6/11/08 14:31:01

## Mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu[2]

- Mae nifer y bobl ifanc yng Nghymru y cofnodir eu bod "yn hoffi'r ysgol yn fawr" yn gostwng rhwng 11 a 15 oed, ymysg bechgyn a merched. Mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn hoffi'r ysgol.
- Ers 1999, mae'r perfformiad ymysg disgyblion yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi bod yn gwella'n gyffredinol.
- Ers 1999, mae'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi bod yn gyson uwch na'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3.
- Ceir tystiolaeth gref bod perthynas rhwng yr hawl i gael Prydau Bwyd am Ddim a chyrhaeddiad isel.
- Bu gwelliant graddol yng Nghymru o ran canran y disgyblion sy'n ennill pump neu ragor o gymwysterau TGAU (gradd A*-C) - gweler Ffigur 2.
- Mae cyfran y disgyblion yng Nghymru sy'n methu â chael unrhyw gymhwyster TGAU wedi aros yn weddol sefydlog er 1999.
- Mae cymariaethau rhyngwladol yn dangos bod cyfran gymharol uchel yng Nghymru o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, sef tua un rhan o ddeg o'r rhai rhwng 16 a 18 mlwydd oed yn 2006.

**Ffigur 2: Canran y rhai 15 mlwydd oed yng Nghymru sy'n ennill pump neu ragor o gymwysterau ar raddau A*-C (neu rai sy'n cyfateb iddynt) mewn TGAU (neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol) (2000-2007)***




*Ffynhonnell: Cronfa Arholiadau Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru*

* Ers 2007, Lefel 2 yw'r mesur safonol, sy'n cynnwys yr holl gymwysterau cymeradwy.

[2] Mae hyn yn cynnwys rhai rhwng 8 a 18 mlwydd oed. Ymdrinnir â gwybodaeth am addysg rhai rhwng 0 a 7 mlwydd oed ym Mhennod 4 *Y Blynyddoedd Cynnar*.




Executive Summary welsh.indd 4
CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001
6/11/08 14:31:02

## Iechyd, rhyddid oddi wrth gamdriniaeth a chamfanteisio[3]

- Mae iechyd deintyddol rhai 11 a 12 mlwydd oed wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ymysg pobl ifanc sydd wedi'u cofnodi yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae lefelau uchel o feichiogrwydd ymysg pobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru o'i chymharu â gwledydd eraill yn Ewrop.
- Mae merched yn tueddu i roi arfarniad is o'u hiechyd nag y mae bechgyn. Yn ogystal â hynny, mae bodlonrwydd bywyd yn gostwng gydag oedran ymysg merched ac yn aros yn gyson ymysg bechgyn.
- Mae tua un rhan o bump o blant dan 15 oed yng Nghymru'n ordew.
- Mae ysmygu ymysg rhai 15 mlwydd oed wedi gostwng yn sylweddol ers cyrraedd uchafbwynt ar ganol y 1990au (gweler Ffigur 3). Er hynny, mae ymddygiadau sy'n achosi risg, sef ysmygu ac yfed, yn dal yn destun pryder allweddol.

**Ffigur 3: Canran y rhai 15 mlwydd oed yng Nghymru sy'n ysmygu bob wythnos (rhwng 1986 a 2006)**




*Ffynhonnell: Data ar Gymru o'r astudiaeth o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC)*

[3] Mae hyn yn cynnwys rhai rhwng 8 a 18 mlwydd oed. Ymdrinnir â gwybodaeth am iechyd rhai rhwng 0 a 7 mlwydd oed ym Mhennod 4 *Y Blynyddoedd Cynnar.*




Executive Summary welsh.indd 5 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:02

## Mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant

- Yn 2005/06, treuliai ychydig llai na hanner (45%) o deuluoedd Cymru amser bob dydd (neu bron bob dydd) ar weithgareddau dan do gyda'u plentyn pum mlwydd oed, ac roedd ychydig mwy na chwarter yn gwneud hynny nifer o weithiau bob wythnos.
- Ystyrid bod ychydig mwy na dwy ran o bump (44%) o blant ysgol gynradd yn bodloni'r canllawiau cyfredol ar weithgarwch corfforol yn 2006.
- Mae cyfraddau gweithgarwch corfforol yn gostwng ymysg plant ysgol uwchradd. Roedd ychydig dros un rhan o dair (35%) o'r rhai rhwng 11 ac 16 mlwydd oed yn gorfforol weithgar yn 2006.
- Mae gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ystadegau sy'n dangos bod merched yn sylweddol llai tebygol o fod yn gorfforol weithgar nag y mae bechgyn (gweler Ffigur 4). Er enghraifft, mae bechgyn 15 mlwydd oed ddwywaith yn fwy tebygol na merched o ymarfer am o leiaf awr ar lefel sydd rhwng y cymedrol a'r egnïol bob diwrnod.
- Yn 2006, cymerodd bron hanner (47%) y rhai rhwng 11 ac 16 mlwydd oed ran mewn gweithgareddau allgwricwlaidd o leiaf unwaith yr wythnos.

**Ffigur 4: Canran y rhai 11, 13 a 15 mlwydd oed (bechgyn a merched) y cofnodwyd eu bod yn ymgymryd ag o leiaf awr o weithgarwch ar lefel sydd rhwng y cymedrol a'r egnïol bob diwrnod (2005/06)**




*Ffynhonnell: Astudiaeth Ymddygiad mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC) yng Nghymru 2005/06.*



Executive Summary welsh.indd 6 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:02

## Mae plant yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch ac yn cael cydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

- Pleidleisiodd ychydig dros un rhan o bump o bobl ifanc 18-24 oed yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn credu y dylent allu pleidleisio yn 16 oed.
- Mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, y cyfrwng mwyaf cyffredin a ddefnyddid i addysgu am CCUHP oedd meysydd cwricwlwm eraill. Yn achos ysgolion cynradd, y dull mwyaf cyffredin oedd trwy wasanaethau.
- Dywedodd bron dwy ran o dair o bobl ifanc nad oedd CCUHP wedi'i esbonio iddynt yn yr ysgol.
- Mae hanner y bobl ifanc yn gwybod pwy sy'n eu cynrychioli ar eu cyngor ysgol.
- Mae hanner y bobl ifanc yn dweud bod eu ffrindiau dosbarth yn garedig ac yn barod eu cymorth.
- Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn dweud eu bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt gartref ac mae'r mwyafrif yn dweud ei bod yn hawdd siarad â'r naill riant neu'r llall.
- Dywedodd un rhan o bump o bobl ifanc eu bod wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad. Dywedodd ychydig dros hanner eu bod wedi llofnodi deiseb.

## Cartref diogel a chymuned ddiogel

- Mae'r rhan fwyaf o rieni yng Nghymru o'r farn bod eu hardal yn lle "rhagorol" neu "dda" ar gyfer magu plentyn 5 mlwydd oed. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo hefyd fod eu hardal leol yn "ddiogel iawn" neu'n "eithaf diogel".
- Mae nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae plant hŷn yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu na phlant iau, ac mae bechgyn yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu nag y mae merched.
- Mae lefelau'r troseddau yn y cartref a'r troseddau personol yng Nghymru wedi aros yn sefydlog dros y ddwy flynedd diwethaf.
- Mae nifer yr aelwydydd digartref gyda phlant dibynnol wedi bod yn gostwng ers 2005/06 (gweler ffigur 5).
- Mae nifer y teuluoedd â phlant sy'n byw mewn llety Gwely a Brecwast wedi bod yn gostwng yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf.



Executive Summary welsh.indd 7 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03

**Ffigur 5: Aelwydydd digartref yng Nghymru sydd â phlentyn/plant (1999-2000 i 2007-08)**

| Nifer yr aelwydydd | Aelwydydd yn cynnwys plentyn/ plant dibynnol | Aelod o'r aelwydydd yn feichiog a dim plant dibynnol eraill |
|---|---|---|
| 1999-00 | 2,070 | 344 |
| 2000-01 | 2,381 | 395 |
| 2001-02 | 2,266 | 414 |
| 2002-03 | 3,007 | 479 |
| 2003-04 | 3,709 | 615 |
| 2004-05 | 3,914 | 724 |
| 2005-06 | 3,129 | 618 |
| 2006-07 | 2,772 | 540 |
| 2007-08 | 2,687 | 486 |

*Ffynhonnell: ffurflenni WHO oddi wrth awdurdodau lleol*

## Tlodi plant

- Mae tua 29% o blant yng Nghymru'n byw mewn cartrefi tlawd (tua 180,000 o blant), ar ôl costau tai.
- Mae'r cyfraddau tlodi incwm ar gyfer plant yng Nghymru'n agosach o lawer yn awr at y cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan, wedi iddynt arfer bod yn uwch o lawer.
- Gostyngodd nifer y plant sy'n byw mewn tlodi absoliwt tua 100,000 rhwng y cyfnod o 1998/99 i 2000/02 a'r cyfnod o 2004/05 i 2006/07.
- Yn y DU, mae 40% o blant tlawd yn byw mewn teuluoedd unig riant, ac mae 45% ohonynt yn byw mewn teuluoedd di-waith.
- Yn y DU, mae ychydig mwy nag un rhan o bump o blant tlawd yn byw mewn cartrefi lle mae'r holl oedolion yn gweithio, ac ychydig mwy nag un rhan o dair yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un o'r oedolion yn gweithio ond nid pob un ohonynt.



Executive Summary welsh.indd 8 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03

# Lles - o safbwynt pwy?

Un cwestiwn a gododd yn aml yn ystod cyfnod llunio'r Monitor oedd safbwynt pwy ar les yr ydym yn ei ystyried?

Mae trefn y Monitor yn dilyn saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r saith nod craidd yn gynhwysfawr ac yn caniatáu inni greu darlun mwy cyflawn o les plant a phobl ifanc nag y byddem yn gallu pe byddem wedi canolbwyntio'n fwy cyfyng ar dlodi plant. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am flaenoriaethau a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl daearyddiaeth, oed, rhyw, amgylchiadau cymdeithasol-economaidd a ffactorau eraill.

Mae'r wybodaeth seiliedig ar wyddoniaeth sydd gennym am yr hyn sy'n gwella ac yn amharu ar les plant a phobl ifanc yn hollbwysig, ond mae angen inni osod hyn ochr yn ochr â chanfyddiadau a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc eu hunain. Mae gwybodaeth gan blant a phobl ifanc wedi'i nodi isod fel bwlch allweddol yn y dystiolaeth.

## Deall y cyd-destun, achosion a chysylltiadau

Mae cydberthynas agos rhwng llawer o'r dangosyddion a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a gofnodwyd yn y Monitor ac amddifadedd. Er enghraifft:

- Pydredd dannedd
- Afiechyd hunan-gofnodedig
- Mynd heb frecwast a bwyta afiach
- Argaeledd mannau awyr agored neu gyfleusterau diogel ar gyfer chwarae i blant
- Beichiogi ymysg pobl ifanc yn eu harddegau
- Cymwysterau addysgol

Gan fod canran uwch yng Nghymru o deuluoedd incwm isel nag yn Lloegr neu'r Alban, nid yw'n syndod bod y canlyniadau yng Nghymru ar gyfer nifer o ddangosyddion yn gymharol wael.




Executive Summary welsh.indd 9 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03

Hefyd, mae llawer o ddangosyddion yn gysylltiedig mewn rhyw fodd (un ai drwy berthynas achosol neu am eu bod yn mesur gwahanol agweddau ar yr un ffenomen). Mae hyn yn atgyfnerthu'r patrwm lles sy'n dod i'r golwg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn wir, mae nifer o ddangosyddion "ffordd o fyw" (fel maint yr ymarfer corfforol a maint yr alcohol a yfir) wedi'u cynnwys yn benodol am ei bod yn hysbys bod y mathau hyn o ymddygiad yn effeithio ar les plant a phobl ifanc yn uniongyrchol ac yn y tymor hwy.

Mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n profi lefelau da o les ond mae lleiafrif sylweddol nad yw mor ffodus.

Er mwyn deall deinameg lles plant a phobl ifanc, mae'n bwysig mesur canlyniadau uniongyrchol a rhai tymor hwy, a deall effaith ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol mwy cyffredinol sy'n aml yn cael eu sianelu drwy ymagwedd ac ymddygiad plant a phobl ifanc. Mae'r model yn Ffigur 6 yn dangos hyn mewn modd cyfannol.

## Ffigur 6: Enfys Polisi Dahlgren




*Ffynhonnell: Dahnlgren G a Whitehead M (1991), a ddyfynnwyd yn "Independent Inquiry into Equalities in Health Report" Syr Donald Acheson (1998)*

Mae gallu plant a phobl ifanc i wrthsefyll ffactorau risg penodol yng Nghymru'n un o blith nifer o feysydd sydd wedi'u henwi fel rhai y mae angen mwy o ymchwil iddynt.



Executive Summary welsh.indd 10 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03

## Datblygu'r sylfaen dystiolaeth

Rydym yn gobeithio y bydd y Monitor, drwy gyfuno gwybodaeth o amryw o ffynonellau, yn cynnig rhai mewnwelediadau defnyddiol i les plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mewn rhai achosion, nid yw tystiolaeth uniongyrchol ar gael ac rydym wedi gorfod defnyddio dulliau mesur "dirprwyol". Mewn achosion eraill, rydym wedi barnu ei bod yn ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun - er enghraifft, am nifer y plant sy'n defnyddio gwasanaeth.

Ar ddiwedd pob pennod rydym yn rhoi crynodeb o'r bylchau allweddol mewn gwybodaeth. Mae'n amlwg nad yw'n bosibl llenwi pob un o'r bylchau hyn ar unwaith ac felly byddwn yn cydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i bennu'r meysydd pwysicaf. Rydym yn credu mai rhai o'r blaenoriaethau cyntaf yw:

- Sut y gallwn wneud mwy o ddefnydd o ffynonellau data sydd ar gael, fel arolwg Byw yng Nghymru, Astudiaeth Carfan y Mileniwm a'r astudiaeth o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol.
- Ymchwilio i ganfod sut y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu gwybodaeth yn fwy systematig mewn cysylltiad â barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, gan gynnwys eu barn am wasanaethau cyhoeddus.
- Datblygu dangosyddion mwy ystyrlon ar gyfer Nodau Craidd 4 a 5.
- Datblygu ein sylfaen dystiolaeth ynghylch cam-drin a chamfanteisio ar blant a phobl ifanc a materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl (Nod Craidd 3).

## Y camau nesaf

Nid yw'r Monitor yn honni ei fod yn ddatganiad terfynol am les plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn hytrach, mae'n ymgais gyntaf i ddadansoddi a chyflwyno data allweddol ar bob un o saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae wedi gwneud defnydd yn fwriadol o ystod eang o ffynonellau data i greu darlun mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl.

Mae'r Monitor wedi'i fwriadu i ysgogi trafodaeth ynghylch sut y dylem ddiffinio, mesur a chofnodi lles plant a phobl ifanc. Bydd y Monitor nesaf, y bwriedir ei gyhoeddi yn 2010, yn ystyried unrhyw adborth a gawn. Yn benodol, byddwn yn gofyn am farn plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y Monitor yn adlewyrchu eu safbwyntiau.



Executive Summary welsh.indd 11 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03

I gael copïau ychwanegol o'r Crynodeb Gweithredol cysylltwch â:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3683 (Llun-Gwe)
Ffacs: 029 2082 5239
E-bost: assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, mae copïau electronig o'r ddogfen hon ar gael yn www.cymru.gov.uk

I lawrlwytho copi o'r Monitor, ewch i:
www.cymru.gov.uk/ymchwil



Executive Summary welsh.indd 12 CertifiedPDF® Welsh Assembly Government ISO-15930 PDF/X-1a:2001 6/11/08 14:31:03